

2014 Rhif 3203 (Cy. 326)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Pandy i Langiwa, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau Cyflymder a Dim Goddiweddyd Dros Dro) 2014

Gwnaed 28 Tachwedd 2014

Yn dod i rym 4 Rhagfyr 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (yr A465) (“y gefnffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd mewn darnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar neu gerllaw'r ffordd.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Rhagfyr 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Pandy i Langiwa, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau Cyflymder a Dim Goddiweddyd Dros Dro) 2014.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “y darnau o'r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 4 Rhagfyr 2014 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl

neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Cyfyngiadau a Gwaharddiad

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder mwy na 40 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder mwy na 10 milltir yr awr yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu defnyddio cerbyd yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall yn y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 yn ystod y cyfryw amseroedd pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

Cymhwysu

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, a 5 yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiad y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

Parhad y Gorchymyn hwn

7. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 18 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 28 Tachwedd 2014

R Morgan

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau

Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 430 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth yn Wern Gifford, Pandy, hyd at bwynt 718 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth ym Mhenishaplwyd, i'r gogledd o'r Pandy.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 200 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â'r fynedfa i'r tŷ annedd a elwir Crossing Cottage, Llangiwa, hyd at ganolbwynt Pont Llangiwa ar y ffin sirol rhwng Sir Fynwy a Swydd Henffordd.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 10 mya a Dim Goddiweddyd Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 200 metr i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at y Lancaster Arms flaenorol, Pandy, hyd at bwynt 200 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 82 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth ym Mhenishaplwyd hyd at bwynt 318 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd honno.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 97 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â'r fynedfa i'r tŷ annedd a elwir Crossing Cottage, Llangiwa, hyd at ganolbwynt Pont Llangiwa ar y ffin sirol rhwng Sir Fynwy a Swydd Henffordd.